**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 21 Tachwedd 2018

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Awdur yr Adroddiad:** Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

**Teitl:** **Adroddiad Diweddaru – Rheoli Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd mewn gweithredu'r cam gweithredu risg fawr yn ymwneud â Rheoli Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif a gynhwyswyd yn adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ym Mehefin 2018.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau wrth reoli rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol. Cododd adroddiad yr archwiliad risg fawr mewn perthynas â llywodraethu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad diweddaru cynnydd i sicrhau bod y mater yn cael sylw. Dyma'r adroddiad cynnydd cyntaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn adolygu cynnydd wrth fynd i'r afael â chamau gweithredu archwilio.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Fe wnaeth adroddiad ategol at 'Adroddiad ar y Prif Bwyntiau: Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif' i'r Bwrdd Pobl Ifanc a Thai 11 Hydref 2018 roi manylion ynghylch ailsefydlu'r Bwrdd Rhaglen Foderneiddio. Yn dilyn cytundeb gyda'r Uwch Swyddog Cyfrifol, ailsefydlwyd y Bwrdd Rhaglen Foderneiddio ac fe gafodd gyfarfod 24 Medi 2018. Yn y cyfarfod hwn, fe gytunwyd ar y paramedrau ar gyfer adrodd a'r rolau a chyfrifoldebau amrywiol. Cytunwyd hefyd ar y canlynol: bod adolygiad o'r gofynion ar gyfer byrddau prosiect ar wahân yn ofynnol i ddarparu cynigion Band B, a fydd yn seiliedig ar ofynion bob prosiect unigol. Mae hyn er mwyn goruchwylio eu sefydliad a'u cynnydd drwy'r camau dylunio i'r ddarpariaeth.

Yn seiliedig ar lywodraethu a rheolaethau cryfach a roddwyd yn eu lle, nid ydym yn ystyried hwn yn fater risg fawr mwyach.

Fe wnaeth adroddiad yr archwiliad godi risg gymedrol yn ymwneud ag absenoldeb canllawiau rheoli prosiect. Mae canllawiau wedi'u drafftio sy'n nodi pryd mae bwrdd prosiect yn ofynnol, ac i egluro pryd y ceir caniatâd i "reoli drwy eithriad" h.y. gall rheolwr prosiect ddarparu'r prosiect o fewn goddefiadau y cytunwyd arnynt, ond y bydd yn rhaid eu huwch-gyfeirio i'r bwrdd rhaglen cyffredinol pe rhagorir arnynt. Bydd y

canllawiau'n cael eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth 6 Rhagfyr 2018, ac yna eu cylchredeg i swyddogion sy'n cynnal rôl rheoli prosiect.
Mae’r ddau gam gweithredu y cytunwyd arnynt ac a godwyd yn yr adroddiad wedi cael sylw priodol felly.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.